

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL
CYMRU**

**OFFERYNNAU
STATUDOL**

**2001 Rhif (Cy.)
LLYWODRAETH LEOL, CYMRU**

**Rheoliadau Dyfarniadau gan
Dribiwnlysoedd Achos a
Thribiwnlysoedd Achos Interim
(Cymru) 2001**

NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r
Rheoliadau)*

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân, awdurdodau heddlu ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") fabwysiadu cod ymddygiad i aelodau ac aelodau cyfetholedig ac i Gomisiynydd Lleol yng Nghymru ymchwilio i achosion lle yr honnir bod aelod neu aelod-cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) o awdurdod perthnasol

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

**STATUTORY
INSTRUMENTS**

**2001 No. (W.)
LOCAL GOVERNMENT, WALES**

**Adjudications by Case Tribunals and
Interim Case Tribunals (Wales)
Regulations 2001**

EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the
Regulations)*

Part III of the Local Government Act 2000 ("the Act") makes provision for the adoption by county and county borough councils, community councils, fire authorities, police authorities and National Park authorities in Wales ("relevant authorities") of a code of conduct for members and co-opted members and for the investigation by a Local Commissioner in Wales of cases in which it is alleged that a member or co-opted member (or former member or co-opted member) of a relevant authority has failed, or may have failed,

EM

wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod, neu ei bod yn bosibl eu bod wedi methu â chydymffurfio ag ef.

Yn dilyn ymchwiliad o'r fath, caiff Comisiynydd Lleol yng Nghymru benderfynu y dylai'r materion sy'n destun yr ymchwiliad gael eu cyfeirio at lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn i driwlynlys sy'n dod o fewn adran 76(1) o'r Ddeddf ("tribiwnlys achos") ddyfarnu arnynt.

O dan amgylchiadau penodol, cyn i ymchwiliad gael ei gwblhau, caiff Comisiynydd Lleol yng Nghymru gynhyrchu adroddiad interim a chyfeirio'r materion sy'n destun yr adroddiad at lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn i driwlynlys sy'n dod o fewn adran 76(2) o'r Ddeddf ("tribiwnlys achos interim") ddyfarnu arnynt.

Mae'r rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan adran 77(4) a (6) o'r Ddeddf, yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dyfarniadau gan driwlynlysoedd achos a thribiwnlysoedd achos interim.

to comply with the authority's code of conduct.

Following such an investigation, a Local Commissioner in Wales may determine that the matters which are the subject of the investigation should be referred to the president of the Adjudication Panel for Wales for adjudication by a tribunal falling within section 76(1) of the Act ("a case tribunal").

In certain circumstances a Local Commissioner in Wales may, before completion of an investigation, produce an interim report and refer the matters which are the subject of the report to the president of the Adjudication Panel for Wales for adjudication by a tribunal falling within section 76(2) of the Act ("an interim case tribunal").

These regulations, which are made under section 77(4) and (6) of the Act, make provision with respect to adjudications by case tribunals and interim case tribunals.

**OFFERYNNAU
STATUDOL**

**2001 Rhif (Cy.)
LLYWODRAETH LEOL, CYMRU**

**Rheoliadau Dyfarniadau gan
Dribiwnlysoedd Achos a
Thribiwnlysoedd Achos Interim
(Cymru) 2001**

Wedi'u gwneud 2001

Yn dod i rym 28 Gorffennaf 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 77(4) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a) ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn unol ag adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(b).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddyfarniadau gan dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd achos interim yng Nghymru yn unig.

**STATUTORY
INSTRUMENTS**

**2001 No. (W.)
LOCAL GOVERNMENT, WALES**

**Adjudications by Case Tribunals and
Interim Case Tribunals (Wales)
Regulations 2001**

Made 2001

Coming into force 28th July 2001

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the power given to it by section 77(4) and (6) of the Local Government Act 2000(a) and after consultation with the Council on Tribunals in accordance with section 8 of the Tribunals and Inquiries Act 1992(b).

Name, commencement and application

1.-(1) The name of these Regulations is the Adjudications by Case Tribunals and Interim Case Tribunals (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 28th July 2001.

(2) These Regulations apply to adjudications by case tribunals and interim case tribunals in Wales only.

Dyfarniadau

2. Bydd y darpariaethau a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddyfarniadau gan driwlynlysoedd achos neu driwlynlysoedd achos interim.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c).

2001

Llywydd y Cynulliad
Cenedlaethol

Adjudications

2. The provisions set out in the Schedule to these Regulations shall apply to adjudications carried out by case tribunals or interim case tribunals.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c).

2001

The Presiding Officer
of the National Assembly

ATODLEN

Rheoliad 2

SCHEDULE

Regulation 2

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon –

ystyr “adroddiad” (“*report*”) yw’r adroddiad a gynhrychir gan Gomisiynydd Lleol yng Nghymru yn unol ag adran 71(3)(a) neu 72(1) o’r Ddeddf, y mae copi ohono wedi’i anfon neu wedi’i roi i lywydd Panel Dyfarnu Cymru yn unol ag adran 71(3)(c) neu 72(5)(c) o’r Ddeddf;

ystyr “cofrestr” (“*register*”) yw’r gofrestr o ddyfarniadau a phenderfyniadau a gedwir yn unol â’r darpariaethau hyn;

ystyr “cofrestrydd” (“*registrar*”) yw’r person sydd am y tro yn gweithredu fel cofrestrydd tribiwnlysoedd ac mae’n cynnwys unrhyw berson a awdurdodir at y diben gan lywydd Panel Dyfarnu Cymru;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “person a gyhuddwyd” (“*accused person*”) yw person sy’n destun yr ymchwiliad a arweiniodd at y cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru o dan adran 71(3) neu 72(4) o’r Ddeddf;

ystyr “swyddog ymchwilio” (“*investigating officer*”) yw person a gynhaliodd yr ymchwiliad a arweiniodd at y cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru o dan adran 71(3) neu 72(4) o’r Ddeddf; ac

ystyr “tribiwnlys” (“*tribunal*”) yw tribiwnlys achos a sefydlir o dan adran 76(1) o’r Ddeddf neu dribiwnlys achos interim a sefydlir o dan adran 76(2) o’r Ddeddf (yn ôl fel

Interpretation

1. In this Schedule –

“accused person” (“*person a gyhuddwyd*”) means a person who is the subject of the investigation which gave rise to the reference to the Adjudication Panel for Wales under section 71(3) or 72(4) of the Act;

“investigating officer” (“*swyddog ymchwilio*”) means a person who carried out the investigation which gave rise to the reference to the Adjudication Panel for Wales under section 71(3) or 72(4) of the Act

“register” (“*cofrestr*”) means the register of adjudications and decisions kept in accordance with these provisions;

“registrar” (“*cofrestrydd*”) means the person for the time being acting as a registrar of tribunals and includes any person authorised for the purpose by the president of the Adjudication Panel for Wales;

“report” (“*adroddiad*”) means the report produced by a Local Commissioner in Wales in accordance with section 71(3)(a) or 72(1) of the Act, a copy of which has been sent or given to the president of the Adjudication Panel for Wales in accordance with section 71(3)(c) or 72(5)(c) of the Act;

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Local Government Act 2000; and

“tribunal” (“*tribiwnlys*”) means a case tribunal established under section 76(1) of the Act or an interim case tribunal established under section

y digwydd).

76(2) of the Act (as the case may be).

Cydnabod, cofrestru a hysbysu

2. Yn dilyn cyfeiriad gan Gomisiynydd Lleol yng Nghymru o dan adran 71(3) neu 72(4) o'r Ddeddf, rhaid i'r cofrestrydd –

- (a) anfon cydnabyddiaeth at y Comisiynydd Lleol o'r ffaith bod y cyfeiriad wedi dod i law;
- (b) nodi manylion y cyfeiriad yn y gofrestr;
- (c) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw berson a gyhuddwyd ynghylch y cyfeiriad, rhif yr achos a nodwyd yn y gofrestr (a fydd yn ffurfio teitl y dyfarniad) a'r cyfeiriad lle y mae'n rhaid anfon hysbysiadau a gohebiaeth arall at y tribiwnlys; ac
- (ch) anfon gyda'r hysbysiad gopi o'r adroddiad ac unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol i'r achos gan gynnwys gwybodaeth ynghylch traddodi ateb.

Ateb

3.-(1) Rhaid i berson a gyhuddwyd draddodi ateb ysgrifenedig i'r cofrestrydd sy'n cydnabod bod yr hysbysiad wedi dod i law ac yn datgan –

- (a) a yw'r person hwnnw yn bwriadu
 - (i) bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad neu,

Acknowledgement, registration and notification

2. Following a reference by a Local Commissioner in Wales under section 71(3) or 72(4) of the Act the registrar shall –

- (a) send to the Local Commissioner an acknowledgement of its receipt;
- (b) enter particulars of it in the register;
- (c) give written notice to any accused person of the reference, the case number entered in the register (which shall constitute the title of the adjudication) and the address to which notices and other communications to the tribunal shall be sent; and
- (d) send with the notice a copy of the report and such other information as is appropriate to the case including information about the delivery of a reply.

Reply

3.-(1) An accused person must deliver to the registrar a written reply acknowledging receipt of the notice and stating –

- (a) whether or not that person intends
 - (i) to attend or be represented at the hearing or,

- | | |
|---|--|
| <p>(ii) herio cynnwys yr adroddiad ac, os felly, ar ba sail;</p> <p>(b) enw a chyfeiriad a phroffesiwn unrhyw berson sydd i'w gynrychioli ac ai'r cyfeiriad hwnnw fydd cyfeiriad y person hwnnw ar gyfer cyflwyno dogfennau at ddibenion y dyfarniad; ac</p> <p>(c) a yw'r person hwnnw yn dymuno bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.</p> | <p>(ii) to dispute the contents of the report and, if so, on what grounds;</p> <p>(b) the name and address and the profession of any person who is to represent him or her and whether such address is to be his or her address for service for the purposes of the adjudication; and</p> <p>(c) whether that person wishes the hearing to be conducted in English or Welsh.</p> |
|---|--|

(2) Rhaid i ateb o'r fath gael ei lofnodi naill ai gan y person a gyhuddwyd neu gan y cynrychiolydd y mae wedi'i enwebu a chael ei draddodi i'r cyfeiriad ar gyfer y tribiwnlys a bennwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan baragraff 2(c) uchod heb fod yn hwyrach nag un diwrnod ar hugain ar ôl y dyddiad y daeth yr hysbysiad i law neu erbyn unrhyw ddyddiad diweddarach y bydd y tribiwnlys yn ei ganiatáu.

(3) Os na chaiff y cofrestrydd ateb o fewn yr amser penodedig neu o fewn unrhyw estyniad amser a ganiateir gan y tribiwnlys, neu os yw'r person a gyhuddwyd yn datgan yn ei ateb nad yw'n bwriadu naill ai bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad na herio cynnwys yr adroddiad, caiff y tribiwnlys benderfynu ar y dyfarniad heb wrandawriad.

Sylwadau ysgrifenedig

4. Caiff person a gyhuddwyd sydd wedi traddodi ateb ysgrifenedig i'r cofrestrydd sy'n datgan nad yw'n bwriadu bod yn bresennol na chael ei gynrychioli yn y gwrandawriad na herio cynnwys yr adroddiad anfon at y cofrestrydd sylwadau ysgrifenedig y mae'n rhaid

(2) Such reply shall be signed either by the accused person or by his or her nominated representative and shall be delivered to the address for the tribunal specified in the notice given under paragraph 2(c) above not later than 21 days after the date on which the notice was received or by such later date as the tribunal may allow.

(3) If no reply is received by the registrar within the specified time or any extension of time allowed by the tribunal, or if the accused person states in his or her reply that he or she does not intend either to attend or be represented at the hearing or to dispute the contents of the report, the tribunal may determine the adjudication without a hearing.

Written representations

4. An accused person who has delivered to the registrar a written reply stating that he or she does not intend to attend or be represented at the hearing or to dispute the contents of the report may send to the registrar written representations which shall be

RB22392AT 6.02.01
(SHD 12.03.01)

iddynt gael eu hystyried gan y tribiwnlys
cyn i benderfyniad ar yr achos gael ei
wneud.

considered by the tribunal before a
decision on the case is reached.

Cyfarwyddiadau wrth baratoi ar gyfer gwrandawriad

5.-(1) Caiff y tribiwnlys ar unrhyw adeg, ar gais person a gyhuddwyd neu o'i ben a'i bastwn ei hun, roi cyfarwyddiadau i alluogi'r person hwnnw i baratoi ar gyfer y gwrandawriad neu i helpu'r tribiwnlys i benderfynu ar y materion.

(2) Rhaid i gais am gyfarwyddiadau gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r cofrestrydd.

Manylion

6. Caiff y tribiwnlys roi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw fanylion y mae'n rhesymol gofyn amdanynt er mwyn penderfynu ar y dyfarniad.

Datgelu dogfennau a deunyddiau eraill

7. Caiff y tribiwnlys roi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson draddodi i'r tribiwnlys unrhyw ddogfen neu ddeunyddiau eraill y gall y tribiwnlys ofyn amdanynt ac y mae gan y person hwnnw bŵer i'w traddodi.

Gwysio tystion

8. Caiff y tribiwnlys, drwy wŷs, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y Deyrnas Unedig (ac eithrio Comisiynydd Lleol yng Nghymru ac unrhyw aelod o staff y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru) fod yn bresennol fel tyst yng ngwrandawriad dyfarniad ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw le a bennir yn y wŷs ac ateb unrhyw gwestiynau neu ddangos unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau eraill yn y gwrandawriad sydd yn ei gadwraeth neu o dan ei reolaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fater sydd o dan sylw yn y dyfarniad, ar yr amod:-

Directions in preparation for a hearing

5.-(1) The tribunal may at any time, on the application of an accused person or of its own motion, give directions to enable that person to prepare for the hearing or to assist the tribunal to determine the issues.

(2) An application for directions shall be made in writing to the registrar.

Particulars

6. The tribunal may give directions requiring any person to provide such particulars as may be reasonably required for the determination of the adjudication.

Disclosure of documents and other material

7. The tribunal may give directions requiring any person to deliver to the tribunal any document or other material which the tribunal may require and which it is in the power of that person to deliver.

Summoning of witnesses

8. The tribunal may by summons require any person in the United Kingdom (with the exception of a Local Commissioner in Wales and any member of the staff of the Commission for Local Administration in Wales) to attend as a witness at the hearing of an adjudication at such time and place as may be specified in the summons and at the hearing to answer any questions or produce any documents or other material in his or her custody or control which relate to any matter in question in the adjudication, provided that:-

(a) na fydd yn ofynnol i unrhyw berson fod yn bresennol gan ufuddhau i wŷs o'r fath oni bai ei fod wedi cael o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg o hysbysiad am y gwrandawriad neu, o gael llai na phedwar diwrnod ar ddeg, ei fod wedi rhoi gwybod i'r tribiwnlys ei fod yn derbyn unrhyw hysbysiad o'r fath sydd wedi'i roi; a

(b) na fydd yn ofynnol i unrhyw berson, heblaw person a gyhuddwyd, gan ufuddhau i wŷs o'r fath, fod yn bresennol a rhoi tystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen oni bai bod treuliau angenrheidiol bod yn bresennol yn cael eu talu neu eu cynnig iddo.

(a) no person shall be required to attend in obedience to such a summons unless he or she has been given at least fourteen days' notice of the hearing or, if less than fourteen days, has informed the tribunal that he or she accepts such notice as has been given; and

(b) no person, other than an accused person, shall be required in obedience to such a summons to attend and give evidence or to produce any document unless the necessary expenses of his or her attendance are paid or tendered to him or her.

Presenoldeb swyddogion ymchwilio

9. Caiff y tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i swyddog ymchwilio fod yn bresennol yng ngwrandawriad dyfarniad er mwyn cyflwyno'r adroddiad a/neu esbonio unrhyw un o'r materion sydd wedi'u cynnwys ynddo ond nid fel arall.

Arbenigwyr

10.-(1) Pan fydd y tribiwnlys yn barnu bod unrhyw gwestiwn yn codi y byddai'n ddymunol cael cymorth arbenigydd yn ei gylch, caiff wneud trefniadau i berson â chymwysterau priodol ymchwilio i'r mater ac adrodd arno ac, os bydd y tribiwnlys yn gofyn iddo wneud hynny, i fod yn bresennol yn y gwrandawriad a rhoi tystiolaeth.

(2) Rhaid darparu copi o adroddiad a geir oddi wrth arbenigydd i bob person a gyhuddyd cyn y gwrandawriad neu unrhyw wrandawriad sy'n cael ei ailddedrau.

Attendance of investigating officers

9. The tribunal may require an investigating officer to attend the hearing of an adjudication for the purpose of presenting the report and/or explaining any of the matters contained in it but not otherwise.

Experts

10.-(1) Where the tribunal considers that any question arises on which it would be desirable to have the assistance of an expert, it may make arrangements for a person with appropriate qualifications to enquire into and report on the matter and, if the tribunal so requires, to attend the hearing and to give evidence.

(2) A copy of a report received from an expert shall be supplied to each accused person before the hearing or any resumed hearing.

(3) Rhaid i'r tribiwnlys fod yn gyfrifol am dalu ffioedd arbenigydd.

Amrywio neu neilltuo cyfarwyddiadau

11. Os na chafodd person y cyfeirir cyfarwyddyd (gan gynnwys unrhyw wŷs) ato gyfle i wrthwynebu gwneud y cyfarwyddyd, caiff wneud cais i'r tribiwnlys am ei amrywio neu ei neilltuo ond rhaid i'r tribiwnlys beidio â gwneud hynny heb yn gyntaf hysbysu'r person a wnaeth y cais am y cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau a wneir ganddo.

Adolygiad cyn gwrandawriad

12.-(1) Os bydd yn ymddangos i'r tribiwnlys y byddai cynnal adolygiad cyn gwrandawriad yn hwyluso dyfarniad, caiff roi cyfarwyddiadau, o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar gais person a gyhuddwyd, i adolygiad o'r fath gael ei gynnal. Rhaid i'r cofrestrydd roi o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg o rybudd ynghylch amser a lle'r adolygiad i bob person a gyhuddwyd.

(2) Rhaid cynnal yr adolygiad yn breifat oni bai bod y tribiwnlys yn cyfarwyddo fel arall ac fe gaiff unrhyw person a gyhuddwyd ymddangos a chael ei gynrychioli gan unrhyw berson arall.

(3) Mewn adolygiad:-

- (a) rhaid i'r tribiwnlys neu, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), y cofrestrydd roi pob cyfarwyddyd y mae'n ymddangos ei fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i sicrhau bod y dyfarniad yn cael ei gynnal yn gyfiawn, yn fuan ac yn ddarbodus;
- (b) rhaid i'r tribiwnlys neu, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), y cofrestrydd ymdrechu i

(3) The fees of an expert shall be borne by the tribunal.

Varying or setting aside directions

11. Where a person to whom a direction (including any summons) is addressed had no opportunity of objecting to the making of the direction, he or she may apply to the tribunal to vary it or set it aside but the tribunal shall not so do without first notifying the person who applied for the direction and considering any representations made by him or her.

Pre-hearing review

12.-(1) Where it appears to the tribunal that an adjudication would be facilitated by the holding of a pre-hearing review, it may, of its own motion or on the application of an accused person, give directions for such a review to be held. The registrar shall give each accused person at least fourteen days notice of the time and place of the review.

(2) The review shall be held in private unless the tribunal directs otherwise and any accused person may appear and be represented by any other person.

(3) On a review:-

- (a) the tribunal or, subject to subparagraph (4), the registrar shall give all such directions as appear to be necessary or desirable to secure the just, expeditious and economical conduct of the adjudication;
- (b) the tribunal or, subject to subparagraph (4), the registrar shall endeavour to secure that any

sicrhau bod unrhyw berson a gyhuddwyd yn gwneud pob addefiad a chytundeb a ddylai gael eu gwneud yn rhesymol mewn perthynas â'r dyfarniad; ac

- (c) fe gaiff y tribiwnlys, os bydd pob person a gyhuddwyd yn cytuno, benderfynu ar y dyfarniad yn ôl y dogfennau a'r datganiadau sydd ger ei fron ar y pryd heb unrhyw wrandawriad pellach.

(4) Rhaid i'r cofrestrydd arfer y pwerau a roddir iddo gan is-baragraff (3)(a) a (b) yn unol â chyfarwyddiadau'r tribiwnlys a gall unrhyw gyfarwyddyd sy'n cael ei roi gan y cofrestrydd gael ei neilltuo neu ei amrywio gan y tribiwnlys o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar gais person a gyhuddwyd.

Hysbysu lle ac amser y gwrandawriad

13.-(1) Rhaid i'r cofrestrydd bennu dyddiad, amser a lle y gwrandawriad ac anfon hysbysiad am y gwrandawriad at unrhyw berson a gyhuddwyd heb fod yn llai nag un diwrnod ar hugain cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Yn hysbysiad y gwrandawriad neu gydag ef rhaid i'r cofrestrydd gynnwys:

- (a) gwybodaeth a chanllawiau, ar ffurf a gymeradwywyd gan lywydd Panel Dyfarnu Cymru, ynghylch presenoldeb tystion yn y gwrandawriad, dod â dogfennau, a'r hawl i gael eich cynrychioli gan berson arall;
- (b) datganiad sy'n esbonio canlyniadau posibl peidio â bod yn bresennol a hawl unrhyw berson a gyhuddwyd sydd wedi

accused person makes all such admissions and agreements as ought reasonably to be made in relation to the adjudication; and

- (c) the tribunal may, if every accused person agrees, determine the adjudication on the documents and statements then before it without any further hearing.

(4) The registrar shall exercise the powers given to him or her by subparagraph (3)(a) and (b) in accordance with the directions of the tribunal and any direction given by the registrar may be set aside or varied by the tribunal of its own motion or on the application of an accused person.

Notice of place and time of hearing

13.-(1) The registrar shall fix the date, time and place of the hearing and, not less than twenty one days before that date, shall send to any accused person notice of the hearing.

(2) The registrar shall include in or with the notice of hearing:

- (a) information and guidance, in a form approved by the president of the Adjudication Panel for Wales, as to attendance at the hearing of witnesses, the bringing of documents, and the right of representation by another person;
- (b) a statement explaining the possible consequences of non-attendance and of the right of any accused person

traddodi ateb ond nad yw'n bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

who has delivered a reply but who does not attend and is not represented to make representations in writing.

(3) Caiff y tribiwnlys ohirio gwrandawriad a rhaid i'r cofrestrydd roi nid llai na saith diwrnod o hysbysiad o unrhyw ohiriad o'r fath i unrhyw berson a gyhuddwyd.

(3) The tribunal may postpone a hearing and the registrar shall give to any accused person not less than seven days notice of any such postponement.

(4) O dro i dro caiff y tribiwnlys dorri gwrandawriad ac, os caiff amser a lle y gwrandawriad a dorrwyd eu cyhoeddi cyn y toriad, ni fydd angen hysbysiad pellach.

(4) The tribunal may from time to time adjourn a hearing and, if the time and place of the adjourned hearing are announced before the adjournment, no further notice shall be required.

Hysbysiad cyhoeddus am wrandawriadau

Public notice of hearings

14. Rhaid i'r cofrestrydd drefnu bod y rhestr o'r holl ddyfarniadau y cynhelir gwrandawriad llafar ar eu cyfer ac o ddyddiad, amser a lle y gwrandawriad ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

14. The registrar shall make available for public inspection a list of all adjudications for which an oral hearing is to be held and of the date, time and place of the hearing.

Pŵer i benderfynu ar ddyfarniad heb wrandawriad

Power to determine an adjudication without a hearing

15.-(1) Caiff y tribiwnlys -

15.-(1) The tribunal may -

(a) os yw pob person a gyhuddwyd yn cytuno felly yn ysgrifenedig, neu

(a) if every accused person so agrees in writing, or

(b) o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mh aragraff 3(3) uchod,

(b) in the circumstances described in paragraph 3(3) above,

benderfynu ar ddyfarniad, neu ar unrhyw fater penodol, heb wrandawriad.

determine an adjudication, or any particular issue, without a hearing.

(2) Bydd darpariaethau paragraffau 17(2) ac 18(6) yn gymwys mewn perthynas â phenderfynu ar ddyfarniad, neu ar unrhyw fater penodol, yn unol â'r paragraff hwn.

(2) The provisions of paragraphs 17(2) and 18(6) shall apply in respect of the determination of an adjudication, or any particular issue, in accordance with this paragraph.

Gwrandawriadau i fod yn gyhoeddus:

Hearings to be public: exceptions

eithriadau

16.-(1) Rhaid i holl wrandawiadau tribiwnlys gael eu cynnal yn gyhoeddus ac eithrio pan yw'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidio buddiannau cyfiawnder.

(2) Bydd gan y personau canlynol hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawriad, p'un a gaiff ei gynnal yn breifat neu beidio:-

- (a) llywydd ac aelodau Panel Dyfarnu Cymru, neu unrhyw aelod ohono, er nad hwy yw'r tribiwnlys at ddibenion y gwrandawriad;
- (b) aelodau'r Cyngor Tribiwnlysoedd;
- (c) Comisiynydd Lleol yng Nghymru neu gynrychiolydd Comisiynydd Lleol yng Nghymru; ac
- (ch) swyddog monitro awdurdod y mae'r person a gyhuddwyd yn aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono.

(3) Caiff y tribiwnlys ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol mewn gwrandawriad a gynhelir yn breifat.

(4) Heb ragfarnu unrhyw bwerau a all fod ganddo, caiff tribiwnlys wahardd o wrandawriad, neu o ran honno, unrhyw berson y mae ei ymddygiad wedi tarfu ar y gwrandawriad, neu'n debygol o darfu arno ym marn y tribiwnlys.

16.-(1) All hearings by a tribunal shall be held in public except where the tribunal considers that publicity would prejudice the interests of justice.

(2) The following persons shall be entitled to attend a hearing whether or not it is in private:-

- (a) the president and members of the Adjudication Panel for Wales notwithstanding that they do not constitute the tribunal for the purpose of the hearing;
- (b) members of the Council on Tribunals;
- (c) a Local Commissioner in Wales or the representative of a Local Commissioner in Wales; and
- (d) the monitoring officer of an authority of which the accused person is a member or co-opted member.

(3) The tribunal may permit any other person to attend a hearing which is held in private.

(4) Without prejudice to any other powers which it may have, a tribunal may exclude from a hearing, or part of it, any person whose conduct has disrupted or is likely, in the opinion of the tribunal, to disrupt the hearing.

Methiant partïon i fod yn bresennol mewn gwrandawriad

17.-(1) Os bydd person a gyhuddwyd yn methu â bod yn bresennol neu â chael ei gynrychioli mewn gwrandawriad y mae wedi'i hysbysu'n briodol amdano, caiff y tribiwnlys –

(a) oni bai ei fod wedi'i fodloni bod rheswm digonol dros yr absenoldeb hwnnw, wrando a phenderfynu ar y dyfarniad yn absenoldeb y person hwnnw; neu

(b) torri'r gwrandawriad;

a chaiff wneud unrhyw orchymyn ynghylch costau a threuliau a wêl yn dda.

(2) Cyn penderfynu y dylid penderfynu ar ddyfarniad yn absenoldeb person a gyhuddwyd, rhaid i'r tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y person hwnnw mewn ymateb i'r hysbysiad am y gwrandawriad ac, at ddibenion y paragraff hwn, rhaid trin unrhyw ateb fel sylw ysgrifenedig.

Y weithdrefn mewn gwrandawriad

18.-(1) Ar ddechrau'r gwrandawriad rhaid i'r cadeirydd esbonio'r drefn y mae'r tribiwnlys yn bwriadu ei mabwysiadu ar gyfer yr achos.

(2) Yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn, bydd y tribiwnlys yn cynnal y gwrandawriad yn y modd hwnnw sydd fwyaf addas ym marn y tribiwnlys i egluro'r materion sydd ger ei fron ac sydd fwyaf addas yn gyffredinol ar gyfer trafod y dyfarniad yn gyfiawn; cyn belled

ag y bo'n ymddangos i'r tribiwnlys fod hynny'n briodol, rhaid i'r tribiwnlys geisio

Failure of parties to attend hearing

17.-(1) If an accused person fails to attend or be represented at a hearing of which he or she has been duly notified, the tribunal may –

(a) unless it is satisfied that there is sufficient reason for such absence, hear and determine the adjudication in that person's absence; or

(b) adjourn the hearing;

and may make such order as to costs and expenses as it thinks fit.

(2) Before deciding to determine an adjudication in the absence of an accused person, the tribunal shall consider any representations in writing submitted by that person in response to the notice of hearing and, for the purpose of this paragraph, any reply shall be treated as a representation in writing.

Procedure at hearing

18.-(1) At the beginning of the hearing the chairperson shall explain the order of proceeding which the tribunal proposes to adopt.

(2) Subject to this paragraph, the tribunal shall conduct the hearing in such manner as it considers most suitable to the clarification of the issues before it and generally to the just handling of the adjudication; it shall so far as appears to it appropriate seek to

avoid formality in its proceedings.

osgoi ffurfioldeb yn ei achosion.

(3) Gall y gwrandawriad gael ei gynnal naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl cyfarwyddyd y tribiwnlys ac wrth roi cyfarwyddyd o'r fath rhaid i'r tribiwnlys gymryd i ystyriaeth unrhyw ddewis a nodwyd gan berson a gyhuddwyd mewn ateb a draddodwyd o dan baragraff 3, ac, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gweithredu'r dewis hwnnw . Yn y naill achos neu'r llall rhaid i wasanaeth cyfieithu ar y pryd gael ei ddarparu ar gyfer unrhyw berson sy'n bresennol yn y gwrandawriad ac sy'n gofyn amdano.

(4) Bydd gan unrhyw berson a gyhuddwyd hawl i roi tystiolaeth, i alw tystion, i holi unrhyw dystion ac i gyfarch y tribiwnlys ar y dystiolaeth ac yn gyffredinol ar bwnc y dyfarniad.

(5) Gall tystiolaeth gerbron y tribiwnlys gael ei rhoi ar lafar, neu, os yw'r tribiwnlys yn gorchymyn felly, drwy affidafid neu ddatganiad ysgrifenedig, ond caiff y tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol ar unrhyw adeg yn yr achos i unrhyw un sy'n tystio datganiad ysgrifenedig neu'n gwneud un fod yn bresennol.

(6) Caiff y tribiwnlys dderbyn tystiolaeth o unrhyw ffaith y mae'n ymddangos i'r tribiwnlys ei bod yn berthnasol er na fyddai'r dystiolaeth honno yn dderbyniadwy mewn achos gerbron llys barn ond rhaid iddo beidio â gwrthod derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n dderbyniadwy yn y gyfraith ac yn berthnasol.

(7) Caiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dyst roi tystiolaeth ar lw neu ar gadarnhad, ac at y diben hwnnw gall llw neu gadarnhad ar ffurf briodol gael eu rhoi.

(3) The hearing may be conducted in either English or Welsh as the tribunal directs and in making such a direction the tribunal shall take account of and, so far as is reasonably practicable, give effect to any preference stated by an accused person in a reply delivered under paragraph 3. In either case an instantaneous translation service shall be provided for any person attending the hearing who requests it.

(4) Any accused person shall be entitled to give evidence, to call witnesses, to question any witnesses and to address the tribunal both on the evidence and generally on the subject matter of the adjudication.

(5) Evidence before the tribunal may be given orally or, if the tribunal so orders, by affidavit or written statement, but the tribunal may at any stage of the proceedings require the personal attendance of any deponent or maker of a written statement.

(6) The tribunal may receive evidence of any fact which appears to the tribunal to be relevant notwithstanding that such evidence would be inadmissible in proceedings before a court of law but shall not refuse to admit any evidence which is admissible at law and is relevant.

(7) A tribunal may require any witness to give evidence on oath or affirmation and for that purpose there may be administered an oath or affirmation in due form.

Penderfyniad Tribiwnlys

19.-(1) Gall penderfyniad tribiwnlys gael ei gymryd gan fwyafrif a rhaid i'r penderfyniad gofnodi a fu'n unfrydol neu a gafodd ei gymryd gan fwyafrif.

(2) Gall penderfyniad tribiwnlys gael ei roi ar lafar ar ddiwedd y gwrandawriad neu ei gadw a, beth bynnag, p'un a gafwyd gwrandawriad neu beidio, rhaid ei gofnodi ar unwaith mewn dogfen y mae'n rhaid iddi gynnwys hefyd ddatganiad o'r rhesymau dros ei benderfyniad a chael ei llofnodi a'i dyddio gan y cadeirydd.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i bob dogfen y cyfeirir ati yn y paragraff hwn gael ei chofnodi yn y gofrestr cyn gynted ag y gellir.

(4) Os bydd unrhyw ddogfen o'r fath yn cyfeirio at unrhyw dystiolaeth sydd wedi'i gwrandao yn breifat, dim ond crynodeb o'r ddogfen a nodir yn y gofrestr, gan hepgor unrhyw ddeunydd a gyfarwyddir gan y tribiwnlys.

(5) Ac eithrio lle cyhoeddir penderfyniad ar ddiwedd y gwrandawriad, trinnir y ddogfen sy'n ei gofnodi fel pe bai wedi'i gwneud ar y dyddiad y caiff ei chofnodi yn y gofrestr.

Gorchymynion costau a threuliau

20.-(1) Ac eithrio fel y darperir gan baragraff 17(1), rhaid i'r tribiwnlys beidio â gwneud gorchymyn fel rheol i ddyfarnu costau a threuliau, ond yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), fe gaiff wneud gorchymyn o'r fath yn erbyn person os yw o'r farn bod y person hwnnw wedi gweithredu'n wacsaw neu'n flinderus neu fod ei ymddygiad wedi bod yn hollol afresymol.

Decision of Tribunal

19.-(1) A decision of a tribunal may be taken by a majority and the decision shall record whether it was unanimous or taken by a majority.

(2) The decision of a tribunal may be given orally at the end of the hearing or reserved and, in any event, whether there has been a hearing or not, shall be recorded forthwith in a document which shall also contain a statement of the reasons for its decision and which shall be signed and dated by the chairperson.

(3) Subject to sub-paragraph (4), every document referred to in this paragraph shall, as soon as may be, be entered in the register.

(4) Where any such document refers to any evidence that has been heard in private, only a summary of the document shall be entered in the register, omitting such material as the tribunal may direct.

(5) Except where a decision is announced at the end of the hearing, the document recording it shall be treated as having been made on the date on which it is entered in the register.

Orders for costs and expenses

20.-(1) Save as provided by paragraph 17(1) the tribunal shall not normally make an order awarding costs and expenses, but may, subject to sub-paragraph (2), make such an order against a person if it is of the opinion that that person has acted frivolously or vexatiously or that his or her conduct has been wholly unreasonable.

(2) Rhaid peidio â gwneud gorchymyn o dan is-baragraff (1) yn erbyn person heb i'r person hwnnw gael cyfle i gyflwyno sylwadau yn erbyn gwneud y gorchymyn.

(3) Gall gorchymyn o dan is-baragraff (1) ei gwneud yn ofynnol i'r person y mae'n cael ei wneud yn ei erbyn dalu i berson arall naill ai swm penodedig mewn perthynas â'r costau a'r treuliau a dynnwyd gan y person arall hwnnw mewn cysylltiad â'r dyfarniad neu'r cyfan neu ran o'r costau hynny fel y maent wedi'u asesu (os na chytunir fel arall).

(4) Bydd unrhyw gostau y mae gorchymyn o dan y paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hasesu yn cael eu hasesu yn y llys sirol ar y sail safonol.

(5) Bydd swm penodedig unrhyw gostau a threuliau a ddyfernir gan dribiwnlys neu swm y costau a'r treuliau hynny ar ôl ei asesu, onid yw'n cael ei neilltuo ac yn ddarostyngedig i unrhyw amrwywiad yn sgil apêl neu adolygiad, yn dwyn llog o'r pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl dyddiad dyfarnu'r costau yn ôl y gyfradd sy'n cael ei rhagnodi am y tro o dan adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984(ch).

(6) Gellir caslgu swm penodedig unrhyw gostau a threuliau neu swm y rheiny fel y mae wedi'i asesu ynghyd ag unrhyw log arnynt drwy atafaeleb a roddir gan lys sirol.

Anghysondebau

21.-(1) Ni fydd unrhyw anghysondeb sy'n deillio o fethu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau hyn neu ag unrhyw gyfarwyddyd gan y tribiwnlys cyn i'r tribiwnlys ei hun gyrraedd ei benderfyniad ynddo'i hun yn golygu bod

(2) No order shall be made under sub-paragraph (1) against a person without that person having been given an opportunity to make representations against the making of the order.

(3) An order under sub paragraph (1) may require the person against whom it is made to pay another person either a specified sum in respect of the costs and expenses incurred by that other person in connection with the adjudication or the whole or part of such costs as assessed (if not otherwise agreed).

(4) Any costs required by an order under this paragraph to be assessed shall be assessed in the county court on the standard basis.

(5) The specified or assessed amount of any costs and expenses awarded by a tribunal shall, unless set aside and subject to any variation on appeal or review, carry interest from the fourteenth day after the date of the award at the rate for the time being prescribed under section 69 of the County Courts Act 1984(d).

(6) The specified or assessed amount of any costs and expenses and any interest thereon shall be recoverable by execution issued from a county court.

Irregularities

21.-(1) Any irregularity resulting from failure to comply with any of these provisions or of any direction of the tribunal before the tribunal has reached its decision shall not of itself render the adjudication void.

y dyfarniad yn annilys.

(2) Pan ddaw unrhyw anghysondeb o'r fath i sylw'r tribiwnlys, fe gaiff y tribiwnlys, ac os yw o'r farn y gall unrhyw berson fod wedi'i ragfarnu gan yr anghysondeb rhaid i'r tribiwnlys, roi unrhyw gyfarwyddiadau y mae'n credu eu bod yn gyfiawn cyn cyrraedd ei benderfyniad i gywiro'r anghysondeb neu i'w hepgor.

(3) Gall gwallau clerigol mewn unrhyw ddogfen sy'n cofnodi cyfarwyddyd neu benderfyniad gan y tribiwnlys, neu wallau sy'n codi mewn dogfen o'r fath yn sgil llithriad neu hepgoriad damweiniol, gael eu cywiro gan y cadeirydd drwy ardstiad o dan ei law.

Y gofrestr a chyhoeddi penderfyniadau

22.-(1) Rhaid i'r gofrestr gael ei chadw yng nghyfeiriad Panel Dyfarnu Cymru a rhaid iddi fod yn agored i unrhyw berson ei harchwilio yn ddi-dâl ar bob adeg resymol.

(2) Caiff y tribiwnlys wneud trefniadau sy'n briodol ym marn y tribiwnlys ar gyfer cyhoeddi ei benderfyniadau ond, wrth wneud hynny, rhaid iddo roi sylw i'r angen i gadw cyfrinachedd unrhyw dystiolaeth a wrandawyd yn breifat ac at y diben hwnnw caiff wneud unrhyw ddiwygiadau sy'n angenrheidiol i destun penderfyniad.

Profi dogfennau a thystysgrif penderfyniadau

23.-(1) Bernir bod unrhyw ddogfen sy'n honni ei bod yn ddogfen sydd wedi'i gweithredu neu wedi'i rhoi yn briodol gan y cofrestrydd ar ran y tribiwnlys yn ddogfen sydd wedi'i gweithredu neu wedi'i rhoi felly, yn ôl fel y digwydd, oni phrofir i'r gwrthwyneb.

(2) Where any such irregularity comes to the attention of the tribunal, the tribunal may, and if it considers that any person may have been prejudiced by the irregularity shall, give such directions as it thinks just before reaching its decision to cure or waive the irregularity.

(3) Clerical mistakes in any document recording a direction or decision of the tribunal, or errors arising in such a document from an accidental slip or omission, may be corrected by the chairperson by certificate under his hand.

The register and publication of decisions

22.-(1) The register shall be kept at the address of the Adjudication Panel for Wales and shall be open to the inspection of any person without charge at all reasonable hours.

(2) The tribunal may make arrangements for the publication of its decisions as it considers appropriate but, in doing so, shall have regard to the need to preserve the confidentiality of any evidence heard in private and for that purpose may make any necessary amendments to the text of a decision.

Proof of documents and certificate of decisions

23.-(1) Any document purporting to be a document duly executed or issued by the registrar on behalf of the tribunal shall, unless the contrary is proved, be deemed to be a document so executed or issued as the case may be.

(2) Bydd dogfen sy'n honni ei bod wedi'i hardystio gan y cofrestrydd fel copi cywir o unrhyw gofnod o benderfyniad yn y gofrestr yn dystiolaeth ddigonol o'r cofnod ac o'r materion a gynhwysir ynddo, oni phrofir i'r gwrthwyneb.

Dull anfon, traddodi neu gyflwyno dogfennau, etc.

24.-(1) Bydd unrhyw ddogfen y mae'r darpariaethau hyn yn gofyn neu'n awdurdodi ei hanfon, ei thraddodi neu ei chyflwyno i unrhyw berson wedi'i hanfon, wedi'i thraddodi neu wedi'i chyflwyno yn briodol i'r person hwnnw:-

- (a) os yw wedi'i hanfon at y person hwnnw yn ei gyfeiriad priodol drwy'r post mewn llythyr cofrestredig neu drwy ddsbarthiad a gofnodwyd;
- (b) os yw wedi'i hanfon ato yn y cyfeiriad hwnnw drwy neges ffacsimili neu unrhyw gyfrwng arall sy'n cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun yr ohebiaeth, ac os felly bernir bod y ddogfen wedi'i hanfon pan fydd wedi dod i law ar ffurf ddarllenadwy;
- (c) os yw wedi'i thraddodi iddo neu wedi'i gadael yn ei gyfeiriad.

(2) Bydd unrhyw ddogfen y gofynnir neu yr awdurdodir ei hanfon, ei thraddodi neu ei chyflwyno i gwmni neu gorff corfforedig wedi'i hanfon, wedi'i thraddodi neu wedi'i chyflwyno os yw wedi'i hanfon, wedi'i thraddodi, neu wedi'i chyflwyno i ysgrifennydd y cwmni neu'r corff.

(3) Cyfeiriad priodol unrhyw berson y mae unrhyw ddogfen o'r fath i'w hanfon,

(2) A document purporting to be certified by the registrar to be a true copy of any entry of a decision in the register shall, unless the contrary is proved, be sufficient evidence of the entry and of matters contained therein.

Method of sending, delivering or serving documents, etc

24.-(1) Any document required or authorised by these provisions to be sent or delivered to, or served on, any person shall be duly sent, delivered or served on that person:-

- (a) if it is sent to that person at his or her proper address by post in a registered letter or by recorded delivery;
- (b) if it is sent to him or her at that address by facsimile transmission or any other means which produces a document containing a text of the communication, in which event the document shall be regarded as sent when it is received in a legible form;
- (c) if it is delivered to him or her or left at his or her address.

(2) Any document required or authorised to be sent or delivered to, or served on, an incorporated company or body shall be duly sent, delivered or served if sent or delivered to or served on the secretary of the company or body.

(3) The proper address of any person to or on whom any such document is to

RB22392AT 6.02.01
(SHD 12.03.01)

ei thraddodi neu ei chyflwyno iddo fydd cyfeiriad hysbys diwethaf y person o dan sylw ac yn achos ysgrifennydd unrhyw gwmni neu gorff corfforedig, swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa y cwmni neu'r corff.

be sent, delivered or served shall, in the case of a secretary of any incorporated company or body, be that of the registered or principal office of the company or body and, in any other case, be the last known address of the person in question.

Amser

25. Pan fydd yr amser a ragnodir gan y darpariaethau hyn ar gyfer gwneud unrhyw weithred yn dod i ben ar ddydd Sul neu ar ŵyl gyhoeddus, bydd y weithred yn brydlon o'i gwneud ar y diwrnod canlynol nesaf nad yw'n ddydd Sul neu'n ŵyl gyhoeddus.

Time

25. Where the time prescribed by these provisions for doing any act expires on a Sunday or public holiday, the act shall be in time if done on the next following day which is not a Sunday or public holiday.

[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]

(a) 2000 p.22.

(b) 1992 p.53.

(c) 1998 p. 38.

(ch) 1984 p.28.

(a) 2000 c.22.

(b) 1992 c.53

(c) 1998 c.38.

(d) 1984 c.28.